# Adroddiad Blynyddol 2019/20

# Cyng. Elfed W Williams

# Plaid Cymru

# Ward Deiniolen



Pwrpas yr adroddiad yw i gynorthwyo etholwyr i wybod mwy am waith a gweithgareddau eu haelodau etholedig yn ystod y flwyddyn

Gweler y ddolen i wefan y Cyngor am fanylion cyfrifoldebau, pwyllgorau a chyrff allanol rwy'n eu gwasanaethu, ynghyd a chofnod o bresenoldeb.

## Prif Weithgareddau Etholaethol a Chymunedol

Hoffwn ddiolch i chi am eich cefnogaeth gyson ac am gydweithio gyda mi dros y flwyddyn ddiwethaf. Dyma ddiweddariad i chi am rai o'r pethau rydw i wedi bod yn ei wneud dros y misoedd diwethaf yn y Ward.

- Tir Ger Ysgol Gwaun Gynfi - 'rwyf wedi bod mewn cyswllt a'r Cyngor ynglŷn â'r darn tir wrth ymyl yr ysgol. Mae'r Ysgol erbyn hyn yn cael ystyriaeth yn y cynllun addasrwydd. Golyga hyn os bydd cais grant yn llwyddiannus bydd cryn dipyn o fuddsoddiad yn cael ei wneud i Ysgol Gwaun Gynfi gan y Cyngor.
- Diffibriliwr Arall i'r Pentref - braf yw cael adrodd y bydd y pedwerydd peiriant diffibriliwr yn cael ei osod yn y Pentref yn fuan iawn. Diolch i Scottish Power am eu cyfraniad ac i weithiwr sydd yn byw yn Rhes Faenol.
- Ymweliad gan Arweinydd y Cyngor - bu i Arweinydd ac Is-Arweinydd y Cyngor ymweld â mi yn y Pentref ym mis Mawrth a chodais fater y ffyrdd gyda hwy.
- Hel Ysbwriel - hoffwn ddiolch i wirfoddolwyr yn y Ward sydd yn mynd o gwmpas i hel ysbwriel : o ganlyniad mae'r broblem ysbwriel yn y Pentref wedi gwella.
- Adra – Diolch i Adra am osod ffensiau a llwybr yn Rhydfadog.
- Cysgodfa i'r Clinic - fel y gwyddoch mae y gysgodfa i'r clinic bellach yn ei lle. Diolch i Fwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr am ei ariannu.
- Bont ger Rhydfadog – diolch i Uned Strwythurau'r Cyngor am wneud gwaith ar y Bont ger Rhydfadog yn ddiweddar.

# Cyfarfodydd, Seminarau a Hyfforddiant y bu i mi eu mynychu

| | |
|---|---|
| Trwyddedu | 07/10/2019 |
| Ymwybyddiaeth Awtistiaeth | 15/05/2019 |